Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Gofal Deintyddol Treganna

17 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy:

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3851-4
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................ 2
2. Methodoleg ........................................ 2
3. Cyd-destun ........................................ 4
4. Crynodeb ........................................ 5
5. Canfyddiadau ........................................ 6

   Profiad y Claf ........................................ 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........................................ 10

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 14

   Ansawdd yr Amgylchedd ........................................ 16

6. Y Camau Nesaf ........................................ 18

   Atodiad A ........................................ 19

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gofal Deintyddol Treganna, 339 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd CF5 1JE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 17 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Mae AGIC yn deall bod Gofal Deintyddol Treganna yn bractis deintyddol cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae gan Ofal Deintyddol Treganna rai cleifion preifat ond yn bennaf maent yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion y GIG, yn ardal Treganna, Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, pedair nyrs, rheolwr practis a derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau deintyddol cyffredinol
- Coronau a phontydd
- Mewnblaniadau
- Gwynnu dannedd
- Hylenydd.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Gofal Deintyddol Treganna yn bodloni'r safonau a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar safon y gofal yn y practis, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â phob maes gofal.

Gwelsom rai problemau ynglŷn â dogfennaeth glinigol, diffyg archwiliadau, stoc â'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio a silindr ocsigen gwag. Felly, ni roddwyd sicrwydd inni fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn ffordd gyson â'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles pobl. Fodd bynnag, gwelsom safonau da o gofnodi triniaeth yn barhaus, cofnodi hanesion a chydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

Ar ddiwrnod yr arolygiad rhoddwyd sicrwydd inni fod y practis yn cael ei reoli'n briodol a bod rhai systemau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.

Gall y cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar safon y gofal yn y practis, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â phob maes gofal.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Yn ogystal, gwnaethom siarad â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dychwelwyd 26 holiadur, fodd bynnag, ni chytunodd un claf i AGIC ddefnyddio'r sylwadau yn yr adroddiad hwn, felly gwnaethom ystyried 25 holiadur. Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y siaradwyd â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng tri mis ac 20 mlynedd. Nododd pob un o'r 28 o bobl fod tîm y practis yn groesawgar ac roedd hanner ohonynt yn awgrymu bod y staff yn rhoi *"croeso mawr iawn"* iddynt.

Roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Nid oedd y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y tu allan i oriau'r GIG gan mai'r bwrdd iechyd a oedd yn gyfrifol am hyn. Roedd neges awtomatig wedi'i chysylltu â llinell ffôn y practis, a oedd yn rhoi gwybodaeth am fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau. Roedd hefyd arwydd yn cynnwys y rhif cyswllt ar y ffenestr flaen a cherdyn i fynd ag ef ac arno fanylion cyswllt y cyfleusterau'r tu allan i oriau ar gyfer y GIG a chleifion preifat fel ei gilydd.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd hefyd gwasanaeth atgoffa trwy neges destun ar gael. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym yn ôl yr angen. Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y system, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud nad oeddent wedi profi oedi wrth aros am eu hapwyntiad. Gwnaeth rhai sylwadau fel y canlynol:

> *'Weithiau, ond ddim yn hir, dyw hi byth yn broblem fawr.'*
>
> *'Dim byd afresymol.'*
>
> *'Oediadau byr.'*

*'Weithiau, ond dim mwy na 10-15 munud.'*

*"Ydw, pob ymweliad."*

*"Ddim yn aml, ond dim ond oediad byr, os oes un."*

Roedd taflen wybodaeth y practis ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol. Mae angen adolygu'r ddogfen hon er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth gywir o ran:

- Sefydliadau i gysylltu â nhw pe bai pryder gan glaf
- Y gwasanaethau mae'r practis yn eu cynnig
- Gwybodaeth glir am p'un yw'r practis yn bractis y GIG, practis preifat neu'r ddau.
- Sicrhau bod rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu cynnwys.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod taflen y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu.***

Roedd arwydd clir ar flaen yr adeilad yn nodi amseroedd agor y practis er gwybodaeth i gleifion.

Dywedodd staff wrthym nad oedd gan y practis system ar gyfer asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir, er enghraifft: blwch awgrymiadau, holiaduron cleifion neu holiadur cleifion y GIG. Roedd hyn yn golygu nad oedd y practis yn ystyried barn y cleifion wrth gynllunio cyflenwi'r gwasanaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ymchwilio i ddulliau casglu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir.***

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a gweld bod hanesion cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd y geg ar gael, fel ysmygu ac yfed alcohol. Gwelsom bosteri hyrwyddo iechyd y geg yn y dderbynfa a'r mannau aros, a dywedodd staff wrthym fod y deintyddion a'r hylenydd yn dosbarthu taflenni gwybodaeth yn ôl yr angen. Roedd hefyd fwrdd gwybodaeth ynglŷn ag iechyd y geg a oedd yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei ddeall. Dywedodd staff wrthym mai cyfrifoldeb y nyrsys oedd ei ddiweddaru yn unol â'r mentrau a oedd yn cael eu hyrwyddo ar y pryd. Roedd hyn yn dystiolaeth o arfer nodedig.

Roedd polisi cwyno ar gael ac roedd y cleifion yn gallu gweld hwn yn y dderbynfa. Nid oedd yn llawn gydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'[2]. Nodwyd gennym hefyd nad oedd cyfeiriadau AGIC na'r Cyngor Iechyd Cymuned ar y polisi er mwyn i gleifion gysylltu â nhw pe bai'r angen yn codi. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder, dywedodd mwy na hanner ohonynt y byddent yn gwybod. Dywedodd y rhai nad oeddent yn sicr, *"Byddwn i'n holi'r deintydd"* neu *"Byddwn i'n ymchwilio i'r peth pe bai angen".*

Dywedodd pob claf ei fod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oedd yn ei dderbyn. Yn ychwanegol i'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth rhai o'r cleifion sylwadau ac awgrymiadau cadarnhaol am eu profiadau a oedd yn cynnwys:

> 'Rwy'n teimlo'n hapus fy mod yn gallu ffonio am gyngor neu i wneud apwyntiad, a bydd y practis yn gwneud pob ymdrech i fy helpu. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac maent yn mwynhau dod at y deintydd.'
>
> 'Gwasanaeth ardderchog. Maent bob amser wedi rhoi croeso mawr imi a fy mhlant, a bob amser yn esbonio - gweithdrefnau manwl sy'n addas ar gyfer plant. Tîm gwych. Diolch."
>
> "Rwy'n fodlon iawn ar y driniaeth rwy'n ei derbyn. Dim ond unwaith y bu'n rhaid imi gwyno, pan oedd fy neintydd arferol i ffwrdd.'
>
> 'Mae'r deintyddion a'r derbynyddion i gyd yn gyfeillgar ac yn rhoi croeso mawr imi - tîm proffesiynol iawn. Gwasanaeth 5 seren, ac mae dod i'r lleoliad hwn, gyda'i staff sydd bob amser yn gwenu, yn gwneud imi deimlo'n gyfforddus ac yn rhoi gwên ar fy wyneb i. Diolch yn fawr iawn'
>
> 'Dw i'n nerfus iawn ynghylch dod at y deintydd ond mae'n gwneud imi ymlacio.'
>
> *'...dw i'n gwerthfawrogi cael fy atgoffa am yr apwyntiadau.'*

---

[2]Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer lleisio pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Gwnaethom wirio gwefan y practis cyn yr arolygiad a gweld bod angen ei hadolygu i sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' (Mawrth 2012) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gan gynnwys y cyfeiriad cywir er mwyn i gleifion y GIG a chleifion preifat leisio pryderon.***

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Gwelsom rai problemau ynglŷn â dogfennaeth glinigol, diffyg archwiliadau, stoc â'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio a silindr ocsigen gwag. Felly, ni roddwyd sicrwydd inni fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn ffordd gyson â'r bwriad o sicrhau diogelwch ac iechyd pobl.. Fodd bynnag, gwelsom safonau o gofnodi triniaeth yn barhaus, cofnodi hanesion a chydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.**

### Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion yn y practis yn cael eu cadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol, ac roedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw ar gofnodion papur. Gwnaethom edrych ar sampl o naw cofnod cleifion (hynny yw, tri chofnod cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis), ac er bod safon y cofnodion triniaeth barhaus yn dda, gwelsom nad oedd cynlluniau triniaeth, opsiynau ar gyfer triniaeth neu ddewisiadau cleifion bob amser yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Roedd hanesion meddygol cleifion wedi'u diweddaru ar gyfer pob triniaeth. Ac eithrio un claf, roedd pob claf wedi cael ei ail-alw o fewn y cyfnod a argymhellir gan ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal[3] .

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod cynlluniau triniaeth, opsiynau, a chydsyniad â thriniaeth yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.***

Pan oedd cleifion wedi derbyn radiograffau (pelydrau-X), er inni weld tystiolaeth bod deintyddion yn cofnodi gwerthusiad clinigol o'r pelydr-X er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddelwedd yn ddigonol, nid oedd pob un yn cofnodi'r cyfiawnhad dros y sgan pelydr-X na'r canfyddiadau.

---

[3]Mae canllawiau clinigol ail-alw deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i ymarferwyr gofnodi'r cyfiawnhad dros sganiau pelydrau-X ynghyd â'r canfyddiadau.***

***Rydym yn cynghori pob clinigydd i ddarllen Canllawiau Arferion Da ar gyfer Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion gan Gyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar gadw cofnodion – gan gynnwys clefyd periodontol – yn cael ei dilyn er mwyn monitro gwelliannau i iechyd y geg, neu leihau clefyd y geg.***

Gwelsom ddefnydd da o'r hylenydd – ac atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat fel ei gilydd. Dangoswyd yr atgyfeiriadau inni, ynghyd â rhagnodiadau/cynlluniau triniaeth a oedd yn cael eu cadw yng nghofnodion papur y cleifion.

Gwnaethom drafod safon y cofnodion yn gyffredinol â'r deintyddion a chael, ar y cyfan, bod systemau da ar waith. Gwelsom fod deintyddion yn ysgrifennu eu hadroddiadau clinigol yn hytrach na dibynnu ar dempledi. Mae hyn yn unigoli'r nodiadau ac yn cofnodi gwybodaeth sy'n benodol i bob claf. Dangosodd trafodaeth bellach â'r deintyddion nad oedd archwiliadau clinigol ac adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal, er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio mewnol er mwyn sicrhau safon y gwasanaeth mae'n ei ddarparu.***

**<u>Cadw cyffuriau a chyfarpar ar gyfer argyfwng</u>**

Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau brys yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom fod swyddog cymorth cyntaf penodedig, a bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir cyffuriau newydd yn lle'r rhai mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Gwelsom hefyd fod cyffuriau brys a'r canllawiau cysylltiedig ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd. Fe wnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at y ffaith bod y silindr ocsigen yn wag a bod rhai mygydau ar goll, a'r dyddiad ar gyfer defnyddio rhai eraill wedi mynd heibio. Mae hyn yn cadarnhau, er bod cyffuriau'n cael eu gwirio, nad oedd yr holl gyfarpar brys yn cael ei wirio'n drwyadl ac yn rheolaidd. Gwnaethom ystyried anfon llythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith ynglŷn â hyn gan ei bod yn hanfodol bod y cyfarpar brys yn gweithio. Fodd bynnag, cymerodd y practis gamau er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod system ar gyfer gwirio cyfarpar brys mewn modd diogel a rheolaidd.***

## Dadheintio

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offer a gwelsom fod mesurau priodol ar waith, gan gynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig. Roedd systemau clir ar waith a gwelsom fod mannau glân a mannau brwnt addas. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai'r mannau hyn yn cael eu dynodi’n eglur. Gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion yn briodol a gwaith cynnal a chadw ar gyfer yr offer glanhau a ddefnyddiwyd. Gwnaethom drafod symud y golau chwyddo (a ddefnyddir i wirio offerynnau ar ôl eu glanhau) fel nad oedd offerynnau'n cael eu cludo'n ôl i'r man brwnt. Gwnaethom drafod hefyd ddefnyddio menig trwchus er mwyn amddiffyn staff rhag anafiad pan fyddant yn glanhau offer miniog. Roedd staff yn ymatebol i'r arsylwadau hyn ac yn chwilio am atebion yn ystod y sesiwn adborth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen symud o golau chwyddo er mwyn atal croes-heintio posibl rhwng offerynnau, ac mae angen i staff ddefnyddio menig trwchus er mwyn amddiffyn eu hunain rhag anafiad.***

Gwelsom fod archwiliadau (gwiriadau) rheolaidd yn cael eu cynnal bob tri mis mewn perthynas â gofynion rheoli heintiau sy'n unol â'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[4]. Gwnaeth staff gadarnhau hyn.

## Offer radiograffig

Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â'r ddogfennaeth amddiffyn rhag ymbelydredd y gwnaethom edrych arni. Roedd cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodedig ar gael; nodi a diffinio ardaloedd rheoledig; cofnod o ymchwiliad i faint o ddos i'w roi, a system o sicrhau ansawdd y delweddau. Gwelwyd tystysgrif archwilio ar gyfer y cyfarpar radiograffeg hefyd.

---

[4] http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy. Mae’r ddogfen WHTM 01-5 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

**Cyfarpar ac offer deintyddol**

Gwelsom fod yr holl ddreir a'u cynnwys yn y gwahanol ystafelloedd triniaeth yn lân, a bod digon o offer er mwyn bodloni anghenion pob ystafell driniaeth yn y practis. Gwelsom nifer o eitemau roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio yn un o'r ystafelloedd triniaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddatblygu system fisol ar gyfer gwirio'r dyddiadau dod i ben ar yr holl ddeunyddiau deintyddol yn y gwahanol ystafelloedd triniaeth.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Ar ddiwrnod yr arolygiad rhoddwyd sicrwydd inni fod y practis yn cael ei reoli'n briodol a bod rhai systemau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion.**

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion y GIG yn bennaf gyda rhai cleifion preifat. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a'r hylenydd yn gyfrifol am bolisïau, gweithdrefnau a materion adnoddau dynol.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei reoli yn dda ac roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisïau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Nid oedd gan bob polisi ddyddiadau adolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol. Gwnaethom nodi nad oedd polisi urddas a phreifatrwydd cleifion na pholisi amddiffyn oedolion. Trafodwyd y mater hwn ar y dydd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod dyddiad ar gyfer pob polisi er mwyn sicrhau bod y fersiwn cyfredol ar gael.***

***Mae angen i'r practis ddatblygu polisi urddas a phreifatrwydd cleifion, yn ogystal â pholisi a gweithdrefn ar gyfer amddiffyn oedolion.***

Gwelsom fod tîm o staff wedi'i hen sefydlu yn y practis – a rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan y prif ddeintydd, yr hylenydd a rheolwr y practis, ac y byddent yn hapus i leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith wrth bob un o'r tri. Roedd tystiolaeth o waith tîm cydlynol ac effeithiol.

Roedd staff newydd yn dilyn rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o gymorth yn ystod cyfnod cyntaf eu cyflogaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod gan staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Gwnaethom nodi nad oedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.***

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat [5], a phrawf o frechiadau boddhaol. Gwnaethom drafod cymorth iechyd galwedigaethol ychwanegol ar gyfer staff â'r prif ddeintydd, a ddywedodd fod ganddynt gontract gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pob aelod o staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol yn rheolaidd, ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd staff yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn rhoi’r cyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, cyfleu gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol, a thrafod canlyniadau o holiaduron cleifion ac archwiliadau. Dywedodd wrthym fod pob aelod o staff yn cadeirio'r cyfarfod yn ei dro. Roedd hyn yn dystiolaeth bod practis yn flaengar ac yn hyrwyddo awyrgylch gwaith cynhwysol.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, a oedd yn dangos bod systemau a phrosesau rheoli addas ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei arolygu mewn modd amserol ac sy'n unol â’r gofynion gorfodol.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu gweld yr yswiriant indemniad a thystysgrifau AGIC y deintyddion ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol. Roedd angen diweddaru tystysgrifau AGIC oherwydd newidiadau gweinyddol yn AGIC. Mae'r prif ddeintydd eisoes wedi mynd i'r afael â'r mater hwn.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â’r rheoliadau a’r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg ynglŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

---

[5] Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy’n darparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.**

Mae Gofal Deintyddol Treganna yn bractis sefydledig ar gyrion canol dinas Caerdydd. Nid oes lleoedd parcio neilltuedig, ond mae rhai lleoedd parcio yn y strydoedd ochr yn agos at y practis. Mae meysydd parcio cyhoeddus nad ydynt yn bell o'r practis ar droed.

Er bod stepen fach y tu allan, mae cleifion sydd ag anawsterau symudedd yn gallu cyrraedd y practis gan fod ramp symudol ar gael. Yn ogystal, mae staff yn sicrhau bod cleifion ag anawsterau symudedd yn cael eu gweld yn yr ystafell driniaeth gyntaf ar y llawr daear. Mae mynediad at fannau eraill o'r adeilad yn gyfyng oherwydd lled y coridorau a gris i lawr at y dderbynfa.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd tai bach ar gyfer y cyhoedd a staff, ond nid oeddent yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd y mannau aros, yr ystafelloedd triniaeth a'r mannau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi eu goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a diogelu papur a chofnodion electronig, ac roedd system wrth gefn foddhaol ar gyfer cofnodion electronig.  Roedd rhagofalon diogelwch ar waith hefyd i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion.

Dim ond enw a chymwysterau'r prif ddeintydd oedd wedi'u harddangos ar y wal y tu allan i'r practis, er bod rhestr o'r holl ddeintyddion i'w gweld yn y cyntedd. Gwnaethom nodi y gallai'r ffont ar y rhestr fod yn fwy er mwyn ei darllen yn haws. Ni welsom fwrdd adnabod staff er mwyn i'r cleifion adnabod y staff a oedd yn rhoi triniaeth iddynt.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid gweld rhestr o bob deintydd, ei gymwysterau a'i rif cofrestru y tu allan i'r practis.***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.***

Gwelsom restr o brisiau'r GIG ar y wal ond nid oedd rhestr o brisiau am driniaeth breifat.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis arddangos restr o brisiau triniaeth breifat a thriniaeth y GIG.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel i'r cleifion allu mynd i mewn ac i'r staff weithio.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran pob un o'r pedair thema. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Gofal Deintyddol Treganna yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Gofal Deintyddol Treganna

## Dyddiad yr Arolygiad: 17 Mawrth 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Mae angen i'r practis sicrhau bod taflen y practis yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18b, d);Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (1.3.3)** | Rydym wrthi'n diweddaru taflen y practis er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau. | N Stockford | Erbyn 30 Ebrill |
| Tudalen 7 | Mae'n rhaid i'r practis ymchwilio i ddulliau o gasglu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd** | Bydd y practis yn rhoi blwch awgrymiadau yn y dderbynfa, a fydd yn cael ei wagio'n fisol. Bydd y canlyniadau'n cael eu coladu a'u hadrodd yn y cyfarfod practis dilynol. | P Stockford | Erbyn 1 Mai |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (5b).** | Bydd holiaduron adborth cleifion yn cael eu dosbarthu bod blwyddyn ac fe archwilir y canlyniadau. | | |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ***gan gynnwys y cyfeiriad cywir er mwyn i gleifion y GIG a chleifion preifat leisio pryderon.*** **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru - Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18b, d);Canllawiau 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.** | Bydd y practis yn cysylltu â Yell er mwyn trafod addasu ein gwefan. Mae gan y practis yr awdurdod i newid manylion ond nid yw staff y practis yn gwybod sut i wneud hyn. Mae'n rhaid defnyddio'r feddalwedd ar gyfer gwneud hyn ar system weithredu Windows. Felly bydd yn rhaid gwneud hyn yn y practis neu anfon diwygiadau at Yell er mwyn iddynt ddiweddaru'r wefan ar ein rhan. | P Stockford | Erbyn 1 Mai |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| Tudalen 10 | Mae angen i'r practis sicrhau bod cynlluniau triniaeth, opsiynau, a chydsyniad â thriniaeth yn cael eu cofnodi mewn cofnodion cleifion. **Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (9a, b, d).** | Mae ffurflenni FP17 DC y GIG a chynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi ar gardiau cofnod papur cleifion ar gyfer pob claf y GIG.<br>Mae cynlluniau triniaeth yn cael eu hargraffu a'u llofnodi, a'u cadw ar gerdyn cofnod papur y claf.<br>Ni chredaf i'r deintydd arolygu edrych ar y cardiau | P Stockford | 1 Mai |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cofnod papur ac felly fe gollodd y cynlluniau hyn.<br>Bydd ffurflen gydsynio ar gyfer triniaeth breifat yn cael ei llunio, ei llenwi a'u chadw yng nghofnodion y claf, a'i hatodi i'r cynllun triniaeth. | | |
| Tudalen 10 | Mae angen i ymarferwyr gofnodi'r cyfiawnhad dros sganiau Pelydrau-X ynghyd â'r canfyddiadau. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru - Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (7a); Cyngor Deintyddol Cyffredinol (4.1.1).** | Hysbyswyd un clinigydd rhan amser am yr angen i sicrhau bod eu cyfiawnhad yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y claf. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod archwiliadau o gardiau gofnod. | P Stockford | Cwblhawyd y cyfarfod 1af a'r archwiliad<br><br>Adolygu bob 4 mis |
| Tudalen 10 | Rydym yn cynghori pob clinigydd i ddarllen y Canllawiau Arferion Da ar gyfer Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion gan Gyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar gadw cofnodion – gan gynnwys clefyd periodontol – yn cael ei dilyn er mwyn monitro gwelliannau i iechyd y geg, neu leihau'r clefyd. | Mae copi o Ganllawiau Cyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol ar gael yn llyfrgell y practis er mwyn i staff ei ddarllen.<br>Rydym yn cadw cofnodion yn unol â chanllawiau Cymdeithas periodontol Prydain a Chyfadran Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol.<br>Dywedodd y deintydd arolygu fod angen defnyddio siartio dyfnder poced llawn ar gyfer dannedd sydd â llai na thri milimedr o bocedu. Nid argymhellir hyn yn y canllawiau cenedlaethol. | P Stockford | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 11 | Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio mewnol er mwyn sicrhau safon y gwasanaeth mae'n ei ddarparu. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (6a, c, d, e).** | Mae archwiliadau’n cael eu cynnal eisoes o’r broses o gadw cofnodion, prosesau radiograffig, golchi dwylo, croes-heintio a ffurflenni atgyfeirio'r hylenydd.<br>Byddwn yn ailasesu'r meysydd sydd angen eu harchwilio yn ein practis. | P Stockford | Diwedd Mai 2015 |
| Tudalen 11 | Mae angen i'r practis sicrhau bod system ar gyfer gwirio cyfarpar brys mewn modd diogel a rheolaidd. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (15a).** | Benthyciwyd silindr ocsigen y bore canlynol oherwydd cafwyd bod yr un yn y practis yn wag.<br>Prynwyd silindr newydd, ac arno system gloi er mwyn ei atal rhag agor yn ddamweiniol. Rhoddwyd system ar waith er mwyn benthyg silindr os oes angen rhagor o ocsigen.<br>Llofnodwyd contract blynyddol ar gyfer cynnal y silindr hwn a darparu silindrau sbâr.<br>Mae gwiriad wythnosol o'r silindr ocsigen a'r cyffuriau brys wedi'i roi ar waith. Cyflawnir hyn ac yn fe gedwir y cofnod wedi’i lofnodi. | P Stockford | Cwblhawyd |
| Tudalen 12 | Mae angen symud y golau chwyddo er mwyn atal croes-heintio posibl rhwng offerynnau, ac | Prynwyd menig trwchus yn lle menig trwch canolig ac mae staff wedi cael eu hannog i'w defnyddio. | N Stockford | Y menig – Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | mae angen i staff defnyddio menig trwchus er mwyn amddiffyn eu hunain rhag anafiad. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (13a). | Bydd y golau chwyddo’n cael ei symud. Bydd yn rhaid gosod silff er mwyn dal y golau chwyddo. | | Y golau – 1 Mai 2015 |
| Tudalen 13 | Mae angen i'r practis ddatblygu system fisol ar gyfer gwirio'r dyddiadau dod i ben ar yr holl ddeunyddiau deintyddol yn y gwahanol ystafelloedd triniaeth. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (15a).** | Bydd adolygiad o'r holl ddeunyddiau ym mhob ystafell driniaeth a'r cwpwrdd stoc yn cael ei gynnal.<br><br>Cynhaliwyd gwiriad o'r holl ddeunyddiau wedi'u storio ac yn yr ystafelloedd triniaeth ym mis Ebrill 2015. Cynhelir ailasesiad bod mis a gwaredir ar ddeunyddiau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio. | P Stockford | Diwedd mis Ebrill 2015 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 14 | Mae angen i'r practis sicrhau bod dyddiad ar gyfer pob polisi er mwyn sicrhau bod y fersiwn cyfredol ar gael. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (22b).** | Bydd y practis yn ailasesu pob polisi cyfredol er mwyn sicrhau bod dyddiad arno ynghyd â dyddiad ar gyfer ei ddiweddaru arno. | R Oestreich | Mai 1 |
| Tudalen 14 | Mae angen i'r practis ddatblygu polisi urddas a phreifatrwydd cleifion, yn ogystal â pholisi a | Mae'r practis wrthi'n llunio polisi urddas a phreifatrwydd. | N Stockford | Mai 1 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gweithdrefn ar gyfer amddiffyn oedolion. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (10, 11);Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.6.9).** | | | |
| Tudalen 14 | Mae angen i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (11c).** | Mae lle wedi'i gadw ar gyfer pob aelod o staff ar y cwrs nesaf sydd ar gael gan yr adran ddeintyddol ôl-raddedig ar 23 Medi 2015. | P Stockford | Medi 2015 |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 16 | Rhaid arddangos rhestr o bob deintydd, ei gymwysterau a'i rifau cofrestru y tu allan i'r practis. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18d,  25a);Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.1.5).** | Mae ffont mwy wedi'i ddefnyddio ar gyfer ein rhestr yng nghyntedd agored y practis, a rhifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u hychwanegu. | N Stockford | Cwblhawyd |
| Tudalen 16 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a'u rhifau cofrestru pan fo hynny'n berthnasol. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well** | Mae'r rhestr o aelodau o staff wedi cael ei diweddaru, a'u rhifau gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u hychwanegu at y rhestr wreiddiol – a'r ffont wedi'i wneud yn fwy. | N Stockford | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **2007 (18d, 25a);Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.1.5).** | | | |
| Tudalen 17 | Dylai'r practis arddangos rhestr o brisiau am driniaeth y GIG a thriniaeth breifat fel ei gilydd. **Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (18d);Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2.4.1).** | Mae rhestr o brisiau am driniaeth breifat wedi'i rhoi ar wal pob ystafell aros. Mae rhestr o eitemau wedi'u hargraffu ar gael yn y dderbynfa. | N Stockford | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** **Paul C Stockford**

**Teitl:** **Perchennog y Practis – Deintydd.**

**Dyddiad:** **17 Ebrill 2015**